



Cylchlythyr Tymor y Pasg 2010

Cyfarchion tymor yr atgyfodiad. Gydag arwyddion o fywyd newydd yn codi o'r tir o'n cwmpas pleser o'r mwyaf yw cael anfon gair ynghylch gobeithion a chynlluniau Cytûn ar gyfer y misoedd nesaf hyn. Ceir achos i ddathlu sawl peth a aeth heibio hefyd.

Cysylltiadau â Syria

Ond, yn gyntaf, siom. Ers wythnosau lawer, bu aelodau o Bwyllgor Rhyngwladol Cytûn yn gweithio'n galed i ddyfnhau ein perthynas ag arweinyddion eglwysi Syria. Eisoes, trefnwyd dau ymweliad buddiol. Er gofid, oherwydd y llwch a godwyd gan losgfynydd Eyjafjallajökull nid oedd modd i'n cynrychiolwyr hedfan



drosodd i Syria. Er hyn, fe fydd y cysylltiadau agos rhyngom yn parhau ac edrychwn ymlaen at glywed ymhellach gan y Parchedig Chris Gillham a lwyddodd i gyrraedd Syria.

Ffordd Newydd o Weithio

Bu'r misoedd diwethaf hyn i Cytûn yn gyfnod o weithio drwy ein cynllun gwaith ac o dderbyn ysgogiad a chyfarwyddyd ar gyfer y dyfodol. Fe ddaeth y cyfarwyddyd hwn yn uniongyrchol o'r eglwysi ynghyd â'r cyrff a'r asiantaethau hynny sy'n aelodau o Cytûn. Datblygir ein patrwm gwaith hefyd mewn partneriaeth â Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol a Chyngor yr Eglwysi Rhyddion.

Rhoddir pwyslais cynyddol ar y lleol. I mi a'm cydweithwyr, bu'n gyfle i gyhoeddi'r Efengyl o bulpudau dan wahoddiad yr eglwysi ym Mhwllheli, Caerdydd, Aberdâr, Dinas Powys, Efail Isaf, Radur, Blaenau Ffestiniog, Pont-y-clun, Caerffili a Phontypridd. Diolchwn i Dduw am y cyfleoedd a roddwyd.

Cyfarfu Grŵp Galluogi Cytûn am y tro cyntaf ym mis Chwefror. Daeth cynrychiolaeth dda o bob rhan o Gymru ac ymhellach i glywed am ymarfer da ellir dysgu ohono o Eglwysi Ynghyd yn Lloegr, yr hyn sy'n digwydd yn Cytûn Sirol Conwy ac i glywed am obeithion ar gyfer y Goleulong ym Mae Caerdydd. Rhoddwyd cyfle i eglwysi a grwpiau lleol i gynnig sylwadau ar gynllun gwaith arfaethedig Cytûn cyn iddo gael ei dderbyn yn ffurfiol gan y Bwrdd.

Cytunwyd ar dri amcan ar gyfer 2010: adnewyddu eciwmeniaeth yng Nghymru, galluogi tystiolaeth Gristnogol ar y cyd a bod yn fan trafod rhwng eglwysi Cymru. Gellir gweld manylion llawn ein cynllun gwaith ar ein safle ar y we.

Corff Noddi Cenedlaethol a Chynlluniau Cyfamodol



Yn allweddol, gobeithir cynnig drafft cyntaf o sut y dylid sefydlu corff noddi cenedlaethol â pherthnasedd lleol erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mai. Dylai hyn hyrwyddo a chefnogi partneriaethau lleol ffurfiol yn eu holl amrywiaeth. Y mae'r gwaith hwn yn gorwedd yn dda â'r egni newydd sydd i'w weld yng ngwaith Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol sy'n cael ei lwyfannu'n weinyddol gan Cytûn drwy Rhian Linearcar.

Bu Panel Ffydd a Threfn y Comisiwn yn hynod weithgar yn cynnig argymhellion pendant i'r Eglwysi Cyfamodol ar gyfer y dyfodol. Ymysg llu o gynlluniau anturus eraill cafwyd dyhead i lunio, yn dilyn myfyrio Beiblaidd a diwinyddol, dogfen y bydd pob un o'r pum Eglwys Gyfamodol yn cytuno arni ar y cyd ac sy'n crynhoi sut y deallir mater arolygiaeth fugeiliol ac sy'n datgan yn eglur pa batrwm a fyddai'n dderbyniol i bawb ohonyn nhw. Cawn weld beth fydd yr ymateb.

Byddai'r argymhellion hyn, os derbynnir hwy gan y pum Eglwys Gyfamodol, yn sylfaen ar gyfer 'map ffordd' ymlaen i'r Comisiwn am y bum mlynedd nesaf yn y gobaith y bydd yn arwain ymhellach tuag at y nod o gyrraedd "Eglwys Cymru" a fydd yn rhannu un ffydd, un strwythur, un weinidogaeth ac un ffurflywodraeth ond a fydd yn anrhydeddu ac yn dathlu gwahanol bwysleisiau diwinyddol a thraddodiadau addoli.

Gwyliau Cenedlaethol

Y mae'r gwaith o gynnal tystiolaeth yr eglwysi yn y gwyliau cenedlaethol yn mynd ymlaen yn arbennig o dda. Cafwyd nifer o geisiadau gan gyrrff Cristnogol newydd ar i Cytûn eu cynnwys ym mhabell yr eglwysi. Testun o lawenydd, yn dilyn y gwaith a wnaeth Cytûn



drwy Sasha Perriam gyda'r Eisteddfod Genedlaethol dros y ddwy flynedd diwethaf yw y bydd mynediad am ddim ar y Sul cyntaf eleni. Y mae'n rhaid gofyn am docynnau gan yr Eisteddfod. Uchafbwynt arall fu'r cydweithio llwyddiannus a gafwyd gyda Chymdeithas y Beibl ac eraill wrth gasglu arian ar gyfer cael y Beibl Braille yn Gymraeg. Diolch yn arbennig i gyfeillion Capel y Priordy, Caerfyrddin am eu hymdrechion clodwiw.

Eglwys a Chymdeithas

Yn y sgwâr cyhoeddus, cafwyd nifer o ddatblygiadau o bwys. Arweinir y gwaith hwn gan Geraint Hopkins ar ran Cytûn. Bu'n anfon nodiadau briffio cyson i'n heglwysi ynghylch gwaith ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar hyn o bryd y mae Mesur yr Iaith Gymraeg yn hawlio cryn sylw.

Wrth gyflwyno tystiolaeth ger bron y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ym mis Ionawr, daeth fy nghyfrifoldebau parthed Confensiwn Cymru Gyfan i ben ar ran Cytûn. Cafwyd cyfle i ystyried pwysigrwydd penodi swyddogion yn adrannau'r Llywodraeth yn San Steffan a oedd â chyfrifoldeb o ddeall datganoli a Chymru. Adlewyrchwyd yr hyn a ddywedwyd yn adroddiad terfynol y Pwyllgor Dethol.



Gan adlewyrchu'r gwaith arloesol a gwblhawyd gan Cytûn o ddwyn cymunedau ffydd at ei gilydd ar lawr lleol a chenedlaethol, braint i mi oedd cael derbyn gwobr Dathlu Llwyddiant Llywodraeth Cynulliad Cymru am wasanaeth i gyd-ymwneud cymunedol gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones. Aeth gwaith Cyngor Rhyng-ffydd Cymru ymlaen yn dda gan gydweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mhob rhan o Gymru. Trafodwyd hyn ym Mhwyllgor Cyfiawnder Hiliol Cytûn. Eisoedd, cafwyd trafodaethau cychwynnol gydag arweinyddion cymunedau ffydd eraill ynghylch cynnal noswyl cyn protest ddisgwylidig Lleng Amddiffyn Cymru i Gaerdydd ddechrau Mehefin. Bu'r eglwysi yn hynod o weithgar o gwmpas protestiadau o'r fath yn Abertawe, Casnewydd a Wrecsam.

Rhoddyd pob cefnogaeth i waith Cymorth Cristnogol yn arbennig wrth godi arian ar gyfer Apêl Haiti. Rhagwelir y byddwn yn cydweithio'n agos â phwyllgor newydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Da yw cael dweud i Cytûn ail afael hefyd â'n perthynas draddodiadol â Dolen Cymru. Edrychir ymlaen yn fawr at weld y cydweithio hwn yn dwysau.

Etholiad Cyffredinol



Yn olaf ond nid yn lleiaf, bu Cytûn yn darparu adnoddau ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol mewn partneriaeth ag Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Gwelir y manylion ar y we. Un o brif ymgyrchoedd yr eglwysi yw Addewid Lloches neu *Sanctuary*

Pledge sy'n hoelio sylw ar gael ymgeiswyr yn yr etholiad i ymrwymo i ddiogelu'r rhai sydd wedi ffoi i'r ynysoedd hyn. Darparwyd nodiadau hefyd sy'n trafod materion megis yr amgylchedd, addysg a Trident.

Persbectif Ariannol

Un o amcanion pennaf Cytûn ar ei newydd wedd yw cynnig gwerth am arian i'r eglwysi mewn hinsawdd economaidd anodd. Cwblhawyd y gwaith hwn o eiddo Cytûn oddi fewn i'r gyllideb a roddwyd, sydd ar gyfartaledd, yn costio llai na 85 ceiniog y flwyddyn i bob aelod sy'n perthyn i eglwysi Cytûn.



Gobeithiwn a gweddiwn y bydd y nodiadau byrion hyn o fudd ac o fendith i'r eglwys hynny rydym yn ceisio eu gwasanaethu yn enw Crist.

Pob Bendith,

Y Parchedig Aled Edwards OBE
Prif Weithredwr Cytûn

Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, 58 Richmond Road, Caerdydd CF24 3UR 029 2046 4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrredig | Rhif: 1117071